# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Mike Lewis | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Ers cael fy ethol ym mis Mai 2016, rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd yn Neuadd Gyhoeddus Treboeth a Chanolfan Gymunedol y Clâs er mwyn mynd i'r afael â materion y soniwyd amdanynt gan breswylwyr, megis priffyrdd, tai, yr heddlu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, llygredd a phroblemau amgylcheddol.

Rwyf wedi cynnal nifer o gyfarfodydd cyhoeddus lle'r oedd presenoldeb yn dda iawn, er mwyn trafod problemau llif traffig dadleuol yn y ward, gan arwain at ymroddiad sylweddol gan y 3 chynghorydd i ddefnyddio eu cyllideb gymunedol i wella a datrys y problemau traffig hyn.

Yn dilyn ymgynghoriad â phreswylwyr, mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu hariannu a'u gweithredu:-

* Llinellau melyn dwbl i fynd i'r afael â pharcio peryglus ar Mount Crescent a chyffordd Ger-y-Coed
* Llinellau melyn dwbl i wella gweledead y gyffordd ar Heol Llangyfelach
* Gosod mannau parcio i breswylwyr ar Heol Llangyfelach
* Gosod twmpathau cyflymder ac arwyddion cyfyngiad cyflymder 20mya ar Heol y Chwarel
* Gosod twmpathau cyflymder a chyfyngiad cyflymder 20mya ar Heol Gwell
* Ynys draffig newydd ger cyffordd Heol y Chwarel a Chilgant Brynawel.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr isadran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau | 6 | / | 7 | 85.71 | % |
| Cyngor | 16 | / | 16 | 100.00 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu | 2 | / | 3 | 66.67 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 9 | / | 11 | 81.82 | % |
| **Cyffredinol** | **33** | **/** | **37** | 89.19 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Fy mhrif ffocws yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cynghorydd Ward ar gyfer Mynydd-bach oedd problemau ward a sicrhau bod unrhyw broblemau mawr neu barhaus yn cael eu nodi a'u datrys cyn gynted â phosib, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd gyda phreswylwyr ac ymweld ag amrywiaeth o etholwyr gyda phroblemau sy'n amrywio o anawsterau ariannol, carthffosiaeth yn dianc i'r briffordd, cwynion am oryrru a damweiniau ar ffyrdd penodol, problemau canclwm, materion tai, rhoi gwybod am dyllau yn y ffordd, diffyg casglu sbwriel cartref a chamddefnyddio biniau sbwriel, i enwi ond ychydig.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Es i gyfarfodydd pwyllgor "Y Clâs i Bawb" yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau.

Cefnogais ddigwyddiadau codi arian amrywiaeth o ysgolion a diwrnodau agored.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

16/05/2017 - Cyllid Llywodraeth Leol
11/05/2017 - Côd Ymddygiad
22/09/2016 - Cyflwyniad i'r Côd Ymddygiad
22/09/2016 - Swyddogaethau'r Cyngor/Cabinet (Swyddog Gweithredol), Cyfansoddiad y Cyngor (cyffredinol), Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor, Moesau ac Ymddygiad, Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
07/07/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi bod yn falch o'ch cynrychioli chi fel eich Cynghorydd Ward a diolch am eich cefnogaeth barhaus.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (2016-2017)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 04.12.2017 |